



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2020 - Mawrth 2021

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH 2021

CYNNWYS

1. Cyflwyniad	3
Y Cyngorydd Elwyn Williams, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	
2. Crynodeb Gweithredol	4
Chris Davies, Y Prif Swyddog Tân QFSM MBA	
3. Y cefndir a'r sefyllfa bresennol	5-6
4. Materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd	7-20
5. Casgliadau	21
6. Atodiad 1	22-25
Canlyniadau'r Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg	

1. CYFLWYNIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog ein cymunedau ac arwyddocâd ein treftadaeth ddiwylliannol. Yn hynny o beth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, fod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gydradd.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ymhlith cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, i gydymffurfio â set o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Rydym ni, yr Awdurdod, wedi ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg, gan ddefnyddio'r Safonau i sicrhau bod ein hymrwymiad a'n dyhead i ddarparu gwasanaethau mewn modd teg i bob ardal yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu datblygu ymhellach.

Rydym hefyd yn cydnabod dyletswydd yr Awdurdod i'n staff ein hunain, y mae'r mwyafrif ohonynt yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn adlewyrchu gwneuthuriad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Dros y deuddeg mis diwethaf, yn wyneb yr heriau a'r cyfyngiadau a osodwyd gan bandemig y coronafeirws, mae'n hynod o braf nodi ein bod wedi dal ati i edrych y tu hwnt i gydymffurfio â'r Safonau i sicrhau bod ein cymunedau wedi parhau i gael mynediad at ein gwasanaethau yn eu dewis iaith.

Dros y deuddeg mis nesaf byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ymhellach â'n partneriaid a gwasanaethau tân ac achub eraill ledled Cymru i hyrwyddo, annog a chefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg yn ein gweithleoedd, ac i ddarparu dewis iaith go iawn i'n cymunedau.

Diolch yn fawr

Elwyn Williams,
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, credwn y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn ymfalchïo mewn darparu'r lefel uchaf o ymrwymiad i'r Gymraeg, gan sicrhau gwasanaethau dwyieithog a dewis iaith i'n staff a'n cymunedau.

Heb amheuaeth, mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn anodd dros ben i'r Gwasanaeth a'n cymunedau. Bu'n rhaid i ni ymateb i heriau pandemig y coronafeirws, gan ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu ein gwasanaethau, a hynny'n aml ar frys.

Er ein bod yn hynod falch o'r gwasanaethau yr ydym wedi parhau i'w darparu, ni allwn anwybyddu'r heriau a wynebwyd yn sgil brys y sefyllfa, o ran ein gallu i gynnal ein hymrwymiad i'r Gymraeg. O ganlyniad, comisynwyd adolygiad llawn o'n cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg, sydd wedi llywio cynnwys yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau yr ydym wedi'u cymryd dros y deuddeg mis diwethaf i fodloni a chynnal ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Mae'n darparu manylion am y cynnydd a wnaed mewn meysydd gwasanaeth allweddol, a chyflawniadau nodedig a fydd yn gwella ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau yn ddwyieithog. Fodd bynnag, er bod cynnydd da wedi'i wneud, mae hefyd yn cydnabod bod yna fwy o waith i'w wneud i sicrhau ein bod yn darparu dewis iaith go iawn i'n cymunedau a'n staff. Felly, rydym eisoes wedi nodi camau allweddol yn yr adroddiad hwn y byddwn yn eu blaenoriaethu fel meysydd ffocws allweddol ar gyfer gwelliant dros y deuddeg mis nesaf.

Bydd y meysydd allweddol hyn yn parhau i ganolbwyntio ar y gwaith yr ydym wedi'i ddechrau eleni i wella gallu dwyieithog ein Gwasanaeth. Rydym am sicrhau bod gennym y nifer gorau posibl o staff dwyieithog mewn meysydd allweddol, sy'n adlewyrchu proffil iaith ein cymunedau. Felly, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog a chreu amgylchedd cadarnhaol i'n staff a'n cymunedau fel y gallant ymgysylltu â ni'n ffurfiol ac yn anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Diolch yn fawr

Chris Davies,
Y Prif Swyddog Tân QFSM

3. Y CEFNDIR A'R SEFYLLFA BRESENNOL

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol.

Ar 30 Medi 2016, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei Hysbysiad Cydymffurfio i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r Safonau sy'n berthnasol i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd ag unrhyw esemptiadau a'r dyddiadau y dylid eu gweithredu. Mae Hysbysiad Cydymffurfio Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gael ar ein gwefan.

Yn rhan o'r Hysbysiad Cydymffurfio, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi dogfen yn nodi'r modd yr oedd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau ar lefel gorfforaethol, yn ogystal â nodi ei brosesau mewnol ar gyfer goruchwyllo a monitro'r broses o weithredu'r Safonau, a hynny erbyn 30 Mawrth 2017. Mae Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gael ar ein gwefan.

O dan y ddeddfwriaeth, mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni a chynnal Safonau'r Gymraeg. Yr adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2020-21 yw gwerthusiad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ei hun o'r modd yr ydym wedi cydymffurfio â'r Safonau a'r modd yr ydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r adroddiad hwn ar gael, ynghyd ag adroddiadau blaenorol, [yma](#) ar ein gwefan.

Atebolrwydd a chyfrifoldeb am y Gymraeg

Ar lefel [bwrdd](#), mae atebolrwydd am y Gymraeg yn gorwedd gyda Phwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Y Cynghorydd Mansel Charles yw Hyrwyddwr yr Awdurdod Tân dros y Gymraeg.

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y [Bwrdd Gweithredol](#) sydd â'r swyddogaeth reoli uchaf, ac mae'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Tân, Chris Davies. Ar y Bwrdd Gweithredol, yr arweinydd gweithredol ar gyfer y Gymraeg yw'r Dirprwy Brif Swyddog Tân, Roger Thomas, sydd â chyfrifoldeb rheoli llinell dros yr adran Cyfathrebu

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Corfforaethol a Datblygu Busnes.

Mae gan y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes, Ceri Jackson, gyfrifoldeb strategol a gweithredol am y Gymraeg.

Mae gan Swyddog y Gymraeg, Clare Grist, gyfrifoldeb am weithredu'r safonau ac am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Ceri Jackson c.jackson@mawwfire.gov.uk a Clare Grist c.grist@tancgc.gov.uk yw'r pwyntiau cyswllt ar gyfer trafod yr adroddiad hwn.

Trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r adroddiad hwn

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'w drafod yng nghyfarfodydd y gyfarwyddiaeth, ac yna cafodd ei gyflwyno i gyfarfod Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2021. Yn sgil cymeradwyaeth Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, cafodd ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad yr Awdurdod.

Cwynion

Gallwch gyflwyno canmolïaeth, sylwadau a chwynion am y Gymraeg [yma](#).

4. Materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd

Pandemig y Coronafeirws

Ar 23 Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru lwyth o fesurau a chyfyngiadau ledled Cymru o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Roedd y mesurau yn amrywiol iawn ac yn effeithio ar fywydau personol cyflogaion y Gwasanaeth, yn ogystal â'r ffordd yr oedd y Gwasanaeth yn gweithredu.

Trwy gydol 2020-21, roedd y Gwasanaeth wedi ymateb yn llwyddiannus i'r heriau a ddeilliodd o'r pandemig, gan barhau'n weithredol trwy gydol y cyfnod a sicrhau bod gwasanaethau allweddol, hanfodol yn cael eu darparu i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Staffio

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2020, roedd yna heriau sylweddol yn bodoli gan fod swydd Swyddog y Gymraeg yn wag a'r Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes ar gyfnod mamolaeth. Dechreuodd y Swyddog y Gymraeg newydd yn ei swydd ym mis Hydref 2020, ar yr un pryd ag y dychwelodd y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes i'w rôl. O ganlyniad, cynhaliwyd y gweithgareddau a amlinellir isod i gyd rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021.

Hunanreoleiddio – Adolygiad o Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg

Cynhaliwyd Adolygiad llawn o Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021, a gofynnwyd i bob Pennaeth Adran adolygu cydymffurfedd trwy ddarparu sgôr RAG (Coch, Melyn, Gwyrdd) a sylwadau ategol mewn perthynas â phob un o'r safonau perthnasol ar gyfer ei adran.

Adolygodd yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes bob un o'r adroddiadau a choladu'r statws RAG a ddychwelwyd ar gyfer pob un o'r Safonau. Dangosodd y dadansoddiad hwn nifer o anghysondebau rhwng adrannau a meysydd diffyg cydymffurfedd posibl, fel yr amlinellir yn y tabl isod.

Daeth yn amlwg o'r sylwadau a wnaed yn yr Adroddiadau ar y Gymraeg nad oedd yna ddiffyg cydymffurfedd yn achos pob Safon a gategoreiddiwyd yn goch; yn hytrach nid oeddent yn berthnasol i fusnes yr adran mewn rhai achosion. Mae pob Adran wedi

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

dehongli'r Safonau yn wahanol; o ganlyniad, mae yna wahaniaeth sylweddol o ran pa rai o'r Safonau y mae pob Adran yn dehongli eu bod yn berthnasol iddi.

O ganlyniad, mae'r adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes wedi cytuno ar y camau canlynol, ac wedi dechrau'r broses o'u rhoi ar waith, a fydd yn parhau trwy gydol 2021/22:

- Cysylltu â phob Pennaeth Ardal Reoli/Is-adran a Phennaeth Adran i ddarparu deialog gychwynnol mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed yn yr adroddiadau ar gydymffurfedd – gan dynnu sylw at feysydd pryder y mae angen mynd i'r afael â nhw (categoriâu Melyn a Choch).
- Pennu cynllun gweithredu i flaenoriaethu (yn seiliedig ar risg) y modd y bwriadwn fynd i'r afael â diffyg cydymffurfedd, yn enwedig o ran y meysydd hynny sy'n gofyn am newidiadau i brosesau/weithdrefnau.
- Llunio dogfennau canllaw i'w cyhoeddi'n fewnol, a fydd yn meithrin ymwybyddiaeth ac yn trafod y diffyg cydymffurfedd (categoriâu Coch a Melyn) y mae angen mynd i'r afael ag ef.
- Ystyried y goblygiadau i'r Ardal Reoli yn sgil ailstrwythuro adrannol ac ailalinio'r Adran Rheoli Risgiau Gweithredol, a'r angen posibl am gymorth ychwanegol i fynd i'r afael â'r ymatebion cydymffurfio a ddarparwyd.
- Cynnal ymarfer siopwr dirgel i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau yr ydym wedi nodi ein bod yn cydymffurfio â nhw (categori Gwyrdd).
- Cynnal adolygiad o'r gwasanaethau cyfieithu ar ôl tri mis i archwilio effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a phriodoldeb y naws a'r llais cyfredol a ddefnyddir ar gyfer ystod o gyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i adolygu hygyrchedd y deunydd a gyhoeddwn ar hyn o bryd yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â nodi'r modd y gellir gwneud gwelliannau.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Gweithredu a Safonau Llundio Polisïau

Mae'r tabl isod yn cofnodi'r camau a gymerwyd yn ystod 2020/21 a'n cynlluniau ar gyfer y camau i'w cymryd yn ystod 2021/22.

Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2020-2021	Camau i'w cymryd yn ystod 2021-2022
Safonau cyflenwi gwasanaethau		
Gohebiaeth 1,4,5-7	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Adolygwyd y canllawiau a datblygwyd canllawiau drafft newydd.	Ymgynghori ag adrannau i gwblhau'r canllawiau drafft. Gweithio gyda thimau gweinyddol yr holl adrannau i ddarparu hyfforddiant ar ganllawiau gohebu.
Galwadau ffôn 8-10,12-18, 20-22 Cyfarfodydd 24, 25/A/D Cyfweliadau i gynorthwyo ag ymholiadau 26/A, 27/A	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Ymgynghori ag adrannau, llunio canllawiau newydd, adnoddau ategol a hyfforddiant yn ôl yr angen.
Cyfarfodydd cyhoeddus 28-32	Yn ystod cyfyngiadau COVID-19, cynhaliwyd cyfarfodydd yr Awdurdod Tân gan ddefnyddio Microsoft Teams. Defnyddiwyd canllawiau'r Comisiynydd, Cynnal Cyfarfodydd Fideo Dwyieithog, a thrafodwyd â sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu mewn modd effeithiol yn y cyfarfodydd hyn.	Adolygu effeithiolrwydd cyfieithu ar y pryd pan fydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ailddechrau.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Digwyddiadau cyhoeddus 33-34	Cafodd digwyddiadau cyhoeddus eu hatal oherwydd pandemig y coronafeirws. Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Ymgynghori ag adrannau, datblygu canllawiau newydd ac adnoddau ategol yn ôl y gofyn.
Cyhoeddusrwydd a hysbysebu 35,36 Dogfennau cyhoeddus 38, 45-47 Ffurflenni 48/A/B	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Adolygu'r dôn a'r llais cyfredol a ddefnyddir yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau nad yw'r iaith yn rhy ffurfiol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol. Meithrin ymwybyddiaeth ledled pob Adran ynghylch yr amserlen ofynnol wrth ofyn am gyfieithiadau, a'r angen i farcio newidiadau mewn deunydd a gyfieithwyd o'r blaen, yn hytrach nag ailgyfieithu testunau llawn dro ar ôl tro.
Gwefan 49,52,53 Apiau 54	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a gwnaed mân newidiadau i'r wefan.	Er bod yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes yn gyfrifol am reoli gwefan allanol y Gwasanaeth, meithrin ymwybyddiaeth mewn Adrannau mai nhw sy'n gyfrifol am y cynnwys sy'n briodol i'w rolau a'u cylch gwaith, a bod angen iddynt sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol ac yn gywir. Mae angen i'r broses hon ystyried y gofyniad i gyfieithu cynnwys newydd a'r amserlen ofynnol ar gyfer gwneud y gwaith hwn.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

<p>Y cyfryngau cymdeithasol 55-56</p>	<p>Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg ac adolygiad adrannol o'r modd i wella ein hymgysylltiad â'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Yn ystod yr adolygiad hwn, dechreuwyd y broses o ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer postio ar y cyfryngau cymdeithasol – yn ddwyieithog ar un cyfrif corfforaethol, postio ddwywaith ar un cyfrif corfforaethol, neu greu dau gyfrif corfforaethol ar wahân – un yn Saesneg ac un yn Gymraeg.</p>	<p>Adolygu'r dôn a'r llais cyfredol a ddefnyddir yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau nad yw'r iaith yn rhy ffurfiol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol.</p> <p>Parhau i ddadansoddi ac adolygu ein gwaith ymgysylltu.</p> <p>Sicrhau bod pob adran sydd â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn deall bod Safon 56, mewn perthynas ag ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg, yn berthnasol iddynt, ac y dylent ystyried gohebiaeth ddwyieithog ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol yn arfer gorau.</p>
<p>Arwyddion 58-60</p> <p>Gwasanaethau'r derbynfeydd 61,64-5</p> <p>Hysbysiadau 66,67</p> <p>Tendrau 73,74/A, 75,77, 112</p>	<p>Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Ymgynghori ag adrannau, datblygu canllawiau newydd ac adnoddau ategol yn ôl yr angen.</p> <p>Gofyn i bob adran hyrwyddo unrhyw wasanaethau Cymraeg y maent yn eu cynnig, a chynorthwyo'r adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ledled y Gwasanaeth.</p>

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Hyrwyddo gwasanaethau 78-79 Hunaniaeth gorfforaethol 80	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Gofyn i bob adran hyrwyddo unrhyw wasanaethau Cymraeg y maent yn eu cynnig, a chynorthwyo'r adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ledled y Gwasanaeth.
Cyrsiau addysg 81	Datblygwyd cymeriad newydd, Sbarc i'w ddefnyddio mewn rhaglenni addysg Diogelwch Cymunedol. Ffocws allweddol oedd sicrhau bod y cymeriad a'r adnoddau'n gweithio'n ddwyieithog ac yr un mor effeithiol yn y ddwy iaith.	Parhau i gefnogi'r adran Diogelwch Cymunedol i ddatblygu adnoddau addysgol dwyieithog mewn perthynas â Sbarc a StayWise Cymru.
Negeseuon i annerch y cyhoedd 82	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2020-2021	Camau i'w cymryd yn ystod 2021-2022
Safonau llunio polisiau		
<p>Safonau llunio polisiau 85-90,92-94</p>	<p>Ar 21 Hydref 2020, aeth Swyddog y Gymraeg i weithdy Comisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Llunio Polisiau. O ganlyniad i'r gweithdy hwn ac ar ôl darllen y ddogfen Cyngor Arfer Da mewn perthynas â'r Safonau Llunio Polisiau, daeth yn amlwg bod GTACAGC yn cynnwys y Gymraeg yn anghywir fel nodwedd mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Tynnwyd nodwedd y Gymraeg allan o'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, a datblygwyd Teclyn newydd i Asesu'r Effaith ar y Gymraeg.</p>	<p>Cymeradwywyd y Teclyn i Asesu'r Effaith ar y Gymraeg gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ym mis Ebrill 2021. Bellach mae'n ofynnol i'r teclyn asesu hwn gael ei ystyried mewn unrhyw bapurau sy'n cael eu drafftio at ddibenion gwneud penderfyniadau. Bydd Swyddog y Gymraeg yn cael copi o bob Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg, ac yn rhoi cyngor ar gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a pha un a ddylid gwneud unrhyw addasiadau neu welliannau neu beidio.</p> <p>Bydd y teclyn newydd yn hwyluso dadansoddiadau ac adroddiadau manylach.</p>
<p>Y cyfryngau cymdeithasol 55-56</p>	<p>Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg ac adolygiad adrannol o'r modd i wella ein hymgysylltiad â'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Yn ystod yr adolygiad hwn, dechreuwyd y broses o ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer postio ar y cyfryngau cymdeithasol – yn ddwyieithog ar un cyfrif corfforaethol,</p>	<p>Adolygu'r dôn a'r llais cyfredol a ddefnyddir yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau nad yw'r iaith yn rhy ffurfiol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol.</p> <p>Parhau i ddadansoddi ac adolygu ein gwaith ymgysylltu.</p> <p>Sicrhau bod pob adran sydd â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn deall bod Safon 56,</p>

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 - MAWRTH

	postio ddwywaith ar un cyfrif corfforaethol, neu greu dau gyfrif corfforaethol ar wahân - un yn Saesneg ac un yn Gymraeg.	mewn perthynas ag ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg, yn berthnasol iddynt, ac y dylent ystyried gohebiaeth ddwyieithog ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol yn arfer gorau.
--	---	---

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod 2020-2021	Camau i'w cymryd yn ystod 2021-2022
Safonau Gweithredu		
Polisi'r Gymraeg 95	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Adolygu polisi'r Gymraeg.
Contractau a gohebiaeth ynglŷn â chyflogaeth 96-101	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Meithrin ymwybyddiaeth ledled y Gwasanaeth ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a lle y gellir dod o hyd i adnoddau. Atgoffa Adrannau bod gan reolwyr rôl o ran gwybod dewisiadau iaith eu staff, ac o ran sicrhau bod y staff yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddynt.
Cyhoeddi polisiau yn Gymraeg 102-108	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Tynnwyd sylw at y gofynion o ran y Gymraeg trwy ddatblygu proses i asesu'r effaith ar y Gymraeg.	Sicrhau bod canllawiau ar gŵynion, achwynion a materion disgyblu mewnol yn cynnwys cyfeiriad at ofynion y Gymraeg, a'u bod yn cael eu rhannu â Phenaeithaid Adrannau/Rheolwyr priodol.
Cwynion gan ac yn erbyn staff 109/A, 110, 112 Proses ddisgyblu 113/A, 115, 6	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Sicrhau bod canllawiau ar gŵynion, achwynion a materion disgyblu mewnol yn cynnwys cyfeiriad at ofynion y Gymraeg, a'u bod yn cael eu rhannu â Phenaeithaid Adrannau/Rheolwyr priodol.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

<p>Darparu meddalwedd a rhyngwynebau cyfrifiadurol 117</p> <p>Y Fewnrwyd 119, 121-2</p>	<p>Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Sicrhau bod rhyngwynebau a datrysiadau meddalwedd dwyieithog ar gael i staff yn ôl yr angen.</p> <p>Cefnogi'r adran TGCh i sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg wrth i fewnrwyd ddiwygiedig gael ei datblygu.</p>
<p>Sgiliau Cymraeg 124</p> <p>Darparu hyfforddiant yn Gymraeg 125-6</p> <p>Gwersi Cymraeg, hyfforddiant i reolwyr ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 127-129</p> <p>Ymsefydlu 130</p>	<p>Gweler y safonau Cadw Cofnodion isod</p>	<p>Gweler y safonau Cadw Cofnodion isod</p>
<p>Llofnodion negeseuon e-bost a manylion cyswllt 131-2</p>	<p>Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Ymgynghori ag adrannau, datblygu canllawiau newydd ac adnoddau ategol yn ôl yr angen.</p>
<p>Bathodynau staff 133/A, 110, 112</p>	<p>Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Meithrin ymwybyddiaeth ym mhob Adran ynghylch y bathodynau sydd ar gael.</p>

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Recriwtio 134/A, 135/A/B, 137-8	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Meithrin ymwybyddiaeth ym mhob Adran bod yn rheid asesu swyddi newydd a swyddi gwag o ran gofynion y Gymraeg.
Arwyddion yn y gweithle 140/1	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Datblygu llyfrgell o arwyddion dros dro, sydd wedi'u cyfieithu ymlaen llaw ac y gall Adrannau eu defnyddio.
Cyhoeddiadau yn y gweithle 142	Cwblhawyd adolygiad o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.	Ymgynghori ag adrannau, datblygu canllawiau newydd ac adnoddau ategol yn ôl yr angen.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Safonau cadw cofnodion

Cwynion

Mae'r tabl isod yn dangos na chafwyd unrhyw gŵynion yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol.

Grŵp Safonau	Cwynion a gafwyd yn uniongyrchol
Safonau cyflenwi gwasanaethau	0
Safonau llunio polisiau	0
Safonau gweithredu	0

Bydd gweithdrefn Canmoliaeth, Sylwadau a Chŵynion y Gwasanaeth yn cael ei hadolygu yn ystod 2021-22 i sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Nododd yr Adolygiad o Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a gynhaliwyd yn 2020-21 nad ydym, ar hyn o bryd, yn cydymffurfio'n llawn â'n dyletswydd i nodi'n glir y modd yr ydym yn bwriadu delio â chŵynion ynghylch ein cydymffurfedd â'r Safonau, na'r modd y byddwn yn darparu hyfforddiant i'n staff o ran delio â'r cwynion hynny. Byddwn hefyd yn adolygu ein polisi cwyn gyflogaeth mewnol mewn perthynas â'r broses gwyno ynghylch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Sgiliau Cymraeg y gweithwyr

Cynlluniwyd a chynhaliwyd arolwg gorfodol o sgiliau Cymraeg yn chwarter cyntaf 2021. Cafwyd 670 o ymatebion, cyfradd ymateb o ychydig dros 50%. Roedd hyn yn ymateb da iawn i sefydliad sydd â llawer o ddiffoddwyr tân wrth gefn sy'n gweithio amrywiaeth o oriau rhan-amser ac sydd â chymwyseddau gweithredol y mae'n rhaid iddynt eu blaenoriaethu pan fyddant yn y gwaith.

Mae'r data ar gyfer 2020-21 yn ymddangos yn Atodiad A.

Yn ystod 2021-2, byddwn yn gweithio i wella'r gyfradd ymateb hon, a byddwn yn cefnogi dymuniad y Comisiynydd i weld mwy o gysondeb o ran cofnodi sgiliau Cymraeg y gweithwyr er mwyn hwyluso'r broses o gasglu data ynghylch y gweithlu dwyieithog, a hynny trwy seilio arolygon yn y dyfodol ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR).

Hyfforddiant

Sgiliau Cymraeg

Gweithiodd y Gwasanaeth gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a *SaySomethinginWelsh* i ddatblygu cyfleoedd dysgu Cymraeg newydd a hyblyg, sy'n addas ar gyfer staff gweithredol a staff cymorth. Cofrestrodd 13 o aelodau o staff ar gyfer y cynllun peilot a lansiwyd ar 1 Ebrill 2021.

Parhawyd i gefnogi staff ar amrywiaeth o gyrsiau *Dysgu Cymraeg* ac rydym wedi cofrestru ar gyfer rhaglen Cymraeg Gwaith 2021-22.

Darparu hyfforddiant yn Gymraeg

Amlygodd yr Adolygiad o Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg heriau sylweddol i ni o ran sicrhau cydymffurfedd llawn wrth ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn Gymraeg. Gofynnwyd am gyngor gan ein Swyddog Cydymffurfedd i sicrhau ein bod yn gallu darparu hyfforddiant ymsefydlu ar sail gyfartal yn Gymraeg a Saesneg, ac adolygwyd y ffurflenni ymsefydlu i sicrhau bod pob un ar gael yn Gymraeg.

Ymgwymerwyd â rhaglen fawr o hyfforddiant Gweithio'n Ddiogel/Rheoli'n Ddiogel IOSH a hyfforddiant NEBOSH yn gynnar yn 2021. Er y codwyd y mater o hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gyda'r darparwyr, ni chafodd hyn ei ddatrys mewn digon o amser i allu cynnig cyfle i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn Gymraeg. Yn 2021-2022, byddwn yn adolygu ein dyletswydd a'n gallu i ddarparu cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant iechyd a diogelwch yn Gymraeg yng nghyd-destun ein rôl o fod yn wasanaeth brys.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

█

O ganlyniad i bandemig y coronafeirws, cyrsiau risg gritigol a gafodd y flaenoriaeth ymysg y rhaglenni hyfforddi trwy gydol 2020-21. O ganlyniad, ni chynhaliwyd sawl cwrs yn ymwneud â'r categorïau isod. Fodd bynnag, bydd y meysydd hyn yn cael eu hailgyflwyno yn ystod 2021-22 a bydd y niferoedd yn cael eu cofnodi'n briodol.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Math o hyfforddiant	Nifer a ddilynodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a ddilynodd y fersiwn Saesneg	Canran a ddilynodd y fersiwn Gymraeg
Recriwtio a chyf-weld	0	0	0
Rheoli perfformiad	0	0	0
Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	0	0	0
Ymsefydlu	Cynhaliwyd 1 sesiwn ymsefydlu yn y Gymraeg. Ni ddarperir hyfforddiant ffurfiol ar sut i gynnal sesiynau cynefino.		
Ymdrin â'r cyhoedd	0	0	0
Iechyd a diogelwch	0	680	0%

Swyddi Newydd a gwag

Categori	Nifer y swyddi sydd wedi'u categoreiddio	Canran y swyddi sydd wedi'u categoreiddio
Hanfofol	2	4%
Dymunol	49	96%
Angen dysgu Cymraeg	0	0%
Ni does angen sgiliau Cymraeg	0	0%

Safonau Atodol

Lluniwyd a chyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2019-20 yn unol â'r gofyniad, ond nid oeddem wedi cydymffurfio â'n dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad.

Cyhoeddwyd copi ar ein gwefan, ond oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws, nid oedd ar gael i'r cyhoedd yn nerbynfa ein Pencadlys.

Ar gyfer 2020-21, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg, fideo ar y cyfryngau cymdeithasol, ac adroddiadau ar y wefan a'r fewnwyd a fydd yn cysylltu cyhoeddiad yr adroddiad hwn â lansiad ein hymgyrch, 'Defnyddia dy Gymraeg gyda ni'. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19, ni fydd yn briodol arddangos copi caled yn nerbynfa ein Pencadlys nac yn ein gorsafodded Tân ac Achub. Fodd bynnag, byddwn yn arddangos hysbysiad a fydd yn rhoi gwybod i

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

████████████████████
unigolion sut i ofyn am gopi personol o'r adroddiad trwy e-bost neu'r post.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

5. CASGLIAD

Fel yr amlinellir yng nghorff yr adroddiad hwn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda chefnogaeth ei gorff llywodraethu, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi ymrwymo i gynyddu'r lefelau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.

Rydym ni, y Gwasanaeth, yn falch o'r camau sylweddol yr ydym eisoes wedi'u cymryd i wella'r gwasanaeth dwyieithog a ddarparwn ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau, ein staff, ein rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna le i wella mewn sawl maes, a byddwn yn mynd i'r afael â hynny yn ystod 2020/21.

Mae camau pellach i'w cymryd eisoes wedi'u nodi yn adran pedwar o'r adroddiad hwn, sy'n amlinellu'r materion sy'n codi o'r adolygiad o gydymffurfedd â safonau'r Gymraeg a gynhaliwyd yn gynharach eleni. Bydd Cynllun Cyflawni'r Gymraeg trosfwaol yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2021/22 i sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cyflawni.

Y bwriad yw y bydd y cynllun gweithredu trosfwaol yn dod yn ddogfen fyw i olrhain ein cydymffurfedd cyffredinol â Safonau'r Gymraeg; ac yn ffordd i fonitro'r cynnydd a wnaed mewn meysydd gwasanaeth allweddol, gan ganolbwyntio ar y rhai y nodwyd bod angen eu gwella ymhellach.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, a bydd yn parhau i hyrwyddo, cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn y Gwasanaeth a'n cymunedau ar bob cyfle.

I gael rhagor o wybodaeth am fanylion yr adroddiad hwn, neu i gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith, cysylltwch â Clare Grist, Swyddog y Gymraeg, trwy anfon neges e-bost i c.grist@tangcg.gov.uk.

6. Atodiad 1

Canlyniadau'r Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg

Cynlluniwyd a chynhaliwyd arolwg gorfodol o sgiliau Cymraeg yn chwarter cyntaf 2021. Cafwyd 670 o ymatebion, cyfradd ymateb o ychydig dros 50%. Roedd hyn yn ymateb da iawn i sefydliad sydd â llawer o ddiffoddwyr tân wrth gefn sy'n gweithio amrywiaeth o oriau rhan-amser ac sydd â chymwyseddau gweithredol y mae'n rhaid iddynt eu blaenoriaethu pan fyddant yn y gwaith.

Gofynnwyd i bersonél gofnodi lefel eu **dealltwriaeth** o'r iaith Cymraeg, ynghyd â lefel y gallu o ddealltwriaeth yr hoffent ei chyrraedd. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

Lefel	Lefel Bresennol	Lefel Ddymunol
Lefel 0 - Yn methu deall ymholiadau syml, gwybodaeth bersonol neu gyfarwyddiadau.	229	91
Lefel 1 – Yn deall ymholiadau syml, gwybodaeth bersonol neu gyfarwyddiadau.	151	82
Lefel 2 – Yn deall pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd pob dydd a rhywun yn rhoi cyfarwyddiadau neu yn gofyn i chi neu rywun arall wneud rhywbeth.	67	81
Lefel 3 – Yn deall gwybodaeth am bynciau cyffredin neu bob dydd a phobl yn siarad yn glir wrth wneud cyhoeddiadau neu ar gyfryngau llafar.	43	113
Lefel 4 – Yn deall y rhan fwyaf o sgyrсияu a thrafodaethau, hyd yn oed am bynciau sy'n anghyfarwydd, a gwahaniaethau rhwng Cymraeg ffurfiol ac anffurfiol ac mewn tafodieithoedd.	72	110
Lefel 5 – Yn deall pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau a phob math o Gymraeg llafar, gan gynnwys darlithiau neu drafodaethau cymhleth.	108	193

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Gofynnwyd i bersonél hefyd gofnodi lefel eu gallu i **siarad** Cymraeg, ynghyd â lefel y gallu i siarad Cymraeg yr hoffent ei chyrraedd. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

Lefel	Lefel Bresennol	Lefel Ddymunol
Lefel 0 – Yn methu ynganu enwau llefydd, enwau personol ac arwyddion yn gywir na chyfarch a chyflwyno eraill, na rhoi a derbyn manylion personol.	141	75
Lefel 1 – Yn gallu ynganu enwau llefydd, enwau personol ac arwyddion yn gywir a chyfarch a chyflwyno eraill neu roi a derbyn manylion personol.	249	95
Lefel 2 – Yn gallu gwneud neu ymateb i ymholiadau syml, rhoi neu ymateb i wybodaeth neu gyfarwyddiadau syml a chynnal sgwrs fer yn gyfnewid wybodaeth syml.	83	99
Lefel 3 – Yn gallu cymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau neu gyfarfodydd, yn troi i'r Saesneg ar gyfer drafodaeth neu wrth roi gwybodaeth fanwl.	43	106
Lefel 4 – Yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y rhan fwyaf o gyfarfodydd gwaith a sgwrsio'n gartrefol a chyfnewid gwybodaeth, yn troi i'r Saesneg ar gyfer termau technegol.	80	118
Lefel 5 – Yn gallu eich mynegi eich hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth ac addasu arddull eich iaith yn ôl y gynulleidfa neu gyd-destun.	74	177

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Gofynnwyd i bersonél gofnodi lefel eu gallu i **ddarllen** Cymraeg, ynghyd â lefel y gallu i ddarllen Cymraeg yr hoffent ei chyrraedd. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

Lefel	Lefel Bresennol	Lefel Ddymunol
Lefel 0 – Yn methu darllen brawddegau byr, arwyddion elfennol, cyfarwyddiadau neu wybodaeth syml.	192	93
Lefel 1 – Yn gallu darllen brawddegau byr, arwyddion elfennol, cyfarwyddiadau neu wybodaeth syml.	198	100
Lefel 2 – Yn gallu darllen negeseuon byr a deall rhai e-byst sylfaenol.	66	76
Lefel 3 – Yn gallu deall y rhan fwyaf o negeseuon sy'n ymwneud â gwaith bob dydd a dyfalu beth mae gair yn ei olygu o'r cyd-destun, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.	58	118
Lefel 4 – Yn gallu darllen y rhan fwyaf o ohebiaeth a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion a deall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau, gyda chymorth geiriadur.	71	112
Lefel 5 – Yn gallu darllen a deall bron pob testun ysgrifenedig yn hawdd, gan droi weithiau at eiriadur a darllen testunau hir, adroddiadau ac erthyglau, i gael hyd i fanylion perthnasol a deall bron pob math o ysgrifennu ffurfiol neu anffurfiol.	85	171

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH

Gofynnwyd i bersonél gofnodi lefel eu gallu i **ysgrifennu** Cymraeg, ynghyd â lefel y gallu i ysgrifennu Cymraeg yr hoffent ei chyrraedd. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

Lefel	Lefel Bresennol	Lefel Ddymunol
Lefel 0 – Yn methu agor a chau e-bost ac ysgrifennu enwau personol, llyfudd a theitlau swyddi.	262	112
Lefel 1 – Yn gallu agor a chau e-bost ac ysgrifennu enwau personol, llyfudd, a theitlau swyddi.	171	103
Lefel 2 – Yn gallu ysgrifennu neges fer at gydweithiwr ac ysgrifennu neges fer i drefnu apwyntiad.	82	98
Lefel 3 – Yn gallu ysgrifennu neges am y rhan fwyaf o bynciau ac ysgrifennu'n eithaf cywir am y rhan fwyaf o bynciau.	65	131
Lefel 4 – Yn gallu llunio gohebiaeth o bob math	48	91
Lefel 5 – Yn gallu ysgrifennu testunau estynedig, adroddiadau neu fathau eraill o ysgrifennu mewn arddull sy'n briodol i'r darllynydd, ysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol fel y bo'r angen ac ysgrifennu'n gywir iawn am ystod helaeth o bynciau.	42	135

SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2020 – Mawrth 2021

www.tanecgc.gov.uk

Cyfathrebu Corfforaethol
a Datblygu Busnes
Corporate Communications and
Business Development

JR1339062021

